PWYLLGOR ARCHWILIO

DYDD MAWRTH, 25 MEHEFIN 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Ian Arundale(Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Bale, Cunnah, Goddard, Singh a/ac Williams |

1 : YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB.

Cafwyd ymddiheuriadau gan D. Hugh Thomas a'r Cynghorwyr Howells a Lister.

2 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Cafwyd y datganiadau o fuddiant canlynol.

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Bale | Eitem 7 | Personol – aelod o’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |
| Y Cynghorydd Williams | Eitem 7 | Personol – aelod o’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol |

3 : PENODI CADEIRYDD A DIRPRWY

Penderfynwyd – bod Ian Arundale yn cael ei benodi'n Gadeirydd y Pwyllgor a bod D. Hugh Thomas yn cael ei benodi'n Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor.

4 : AELODAETH A CHYLCH GORCHWYL

Nodwyd aelodaeth a chylch gorchwyl y Pwyllgor.

5 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod ar 2 Ebrill 2019 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

6 : MATERION GWEITHREDOL

7 : DIWEDDARIAD GAN NEIL HANRATTY, CYFARWYDDWR DATBLYGU ECONOMAIDD AR YR AMGYLCHEDD RHEOLI MEWNOL

Cafodd yr Aelodau adroddiad mewn ymateb i gais y Pwyllgor am ddiweddariad ar yr amgylchedd rheoli mewnol o fewn y Gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd. Croesawodd y Cadeirydd Neil Hanratty, Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd, a roddodd gyflwyniad byr yn amlinellu cyfrifoldebau'r Gyfarwyddiaeth, ei chyflawniadau, a'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu ystod o ddyletswyddau, swyddogaethau a gwasanaethau.

O ran risgiau adeiladau ac eiddo, hysbyswyd yr Aelodau am y trefniadau llywodraethu drwy'r model landlord corfforaethol, gan gynnwys defnyddio meddalwedd cydymffurfio â rhwymedigaeth statudol (RAMIS). Dywedodd y

Cyfarwyddwr fod meddalwedd ychwanegol yn cael ei chyflwyno i roi golwg gyfannol ar berfformiad eiddo.

Hysbysodd y Cyfarwyddwr yr aelodau o'r strwythur a'r broses i reoli a monitro risgiau strategol a gweithredol. Cyfeiriwyd at y risg corfforaethol o ran Cynnal a Chadw Cyfarpar Adeiladu Statudol, a reolir gan y Bwrdd Cydymffurfio Iechyd a Diogelwch, a gadeirir gan y Prif Weithredwr. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud i leihau'r risg hon, gan gynnwys trefniadau newydd ar gyfer contractau cynnal a chadw statudol; sefydlu Tîm Cynnal a Chadw statudol o fewn Gwasanaethau Adeiladu; adroddiadau cydymffurfio rheolaidd i'r Uwch Dîm Rheoli a rheolwyr; Llawlyfr Adeiladau Ysgol ar ei newydd wedd a Memorandwm Cytundeb; a desg wasanaeth newydd sy'n darparu un pwynt mynediad i gwsmeriaid.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod Datganiad Sicrwydd Uwch Reolwyr y Gyfarwyddiaeth yn rhoi trefn gadarn gyffredinol o lywodraethu a rheoli ar draws y Gyfarwyddiaeth, gyda sefyllfa gymysg o ran ystyried a dogfennu Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol wrth wneud penderfyniadau.

Gwahoddwyd Aelodau i wneud sylwadau, i ofyn am eglurhad neu i godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Crynhoir y trafodaethau hynny fel a ganlyn:

- Gofynnodd yr Aelodau pa newidiadau a wnaed i'r strwythur rheoli o fewn yr adran ers i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Masnachol adael y swydd. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod yr uwch reolwyr wedi'u hategu ar lefel RhG1 o ran cyflawni'r Fframwaith Landlord Corfforaethol ac Iechyd a Diogelwch.

- Gofynnodd Aelod a fu unrhyw achosion o dorri'r rheolau iechyd a diogelwch, ac i egluro rôl y Grŵp Fforwm Cynghori ar Iechyd a Diogelwch a llywodraethu ehangach. Dywedodd y Cyfarwyddwr na allai warantu na fyddai unrhyw bryderon na materion yn codi o'r adeilad, ond mae mwy o reolaeth i roi sicrwydd o gydymffurfiaeth barhaus. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod cyfraddau cydymffurfio'r ysgolion tua 80% a'u bod yn parhau i gynyddu. Adroddwyd bod y Cabinet wedi darparu adnoddau ychwanegol, ac mae 300 o arolygon wedi'u cwblhau hyd yn hyn. Mae Pwyllgor Iechyd a Diogelwch y Gyfarwyddiaeth yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â chydweithwyr yn yr Undebau Llafur, sy'n cyfrannu at y Fforwm Ymgynghorol ar Iechyd a Diogelwch.

- Roedd aelod o'r farn, yn ystod y cyfnod pontio i'r Model Landlord Corfforaethol, bod ysgol yn ei ward wedi methu dyddiadau cau ar gyfer arolygiadau, a gofynnodd a oedd y newid yn rhoi plant mewn perygl. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod gan ysgolion wariant dewisol, a bod Llawlyfr ar gael i ysgolion i'w helpu i ddeall cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Ysgol. Cyfeiriwyd at yr Un Ddesg Gwasanaeth Drws Ffrynt fel proses sicrwydd, a dywedodd yr Aelodau fod system wirio wedi'i sefydlu.

- Cododd Aelodau'r Pwyllgor Archwilio amryw o enghreifftiau o Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion. Awgrymodd y Cadeirydd fod y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a Chyfarwyddwr Datblygu Economaidd yn cyfathrebu'n uniongyrchol ag Aelodau'r Pwyllgor sydd wedi codi ymholiadau

penodol o ran Iechyd a Diogelwch. Yn dilyn hyn, gellir pennu a threfnu gwybodaeth ac ymgysylltu perthnasol y Pwyllgor Archwilio, fel y bo'n briodol.

- Gofynnodd un aelod am wybodaeth am y trefniadau ariannu a goruchwylio ar gyfer y cyllid £10 miliwn er mwyn datblygu’r Clwstwr Diwydiant Creadigol AHRC. Dywedodd y Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd mai Prifysgol Caerdydd sy'n arwain y prosiect mewn partneriaeth â'r BBC a'r Cyngor. Mae'r cyllid ar gyfer hyrwyddo diwydiannau creadigol a chefnogi busnesau yn y sector. Mae'r prosiect yn annibynnol o’r Cyngor, ond mae wedi’i leoli yn Neuadd y Ddinas ac mae Aelod o'r Cabinet yn eistedd ar y bwrdd prosiect.

- Gofynnodd yr Aelodau i'r Cyfarwyddwr esbonio risgiau a chysylltiad penodol mewn perthynas â chynhyrchu incwm. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod £37.8 miliwn yn cael ei gynhyrchu mewn lleoliadau fel Neuadd Dewi Sant, y Theatr Newydd a Chastell Caerdydd. Roedd y Gyfarwyddiaeth yn ddibynnol ar incwm, sy'n agored i risg mewn marchnadoedd anwadal sydd y tu hwnt i reolaeth yr awdurdod. Caiff y risgiau hyn eu lliniaru drwy fonitro'r gyllideb yn rheolaidd. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn edrych ar gyfleoedd newydd i gynhyrchu incwm ym mhob lleoliad ond mae lleoliadau hefyd yn agored i gystadleuaeth.

PENDERFYNWYD:

(1) I nodi'r adroddiad;

(2) Y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a Chyfarwyddwr Datblygu Economaidd i egluro unrhyw ymholiadau Iechyd a Diogelwch penodol gyda'r Cynghorwyr Bale, Cunnah a Williams. Yn dilyn hyn, bydd gwybodaeth ac ymgysylltu perthnasol y Pwyllgor Archwilio yn cael eu pennu a'u trefnu.

## 8 : DIWEDDARIAD ARIANNOL GAN GYNNWYS MATERION CYDNERTHEDD - DIWEDDARIAD AR LAFAR

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar lafar ar y sefyllfa ariannol. Atgoffwyd yr Aelodau fod yr adroddiad alldro 2018/19 terfynol ar gyfer y Cabinet wedi'i gylchredeg ar 10fed Mehefin, lle adroddwyd ar sefyllfa gytbwys, ond gyda rhai amrywiannau o fewn cyfarwyddiaethau. Dywedwyd wrth yr Aelodau hefyd y byddai adroddiad gan y Cabinet yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf ar Strategaeth y Gyllideb ar gyfer 2020-21 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Gofynnodd Aelod am y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa o ran y diffyg pensiwn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gydag actiwari'r gronfa bensiwn ac nad yw'r awdurdod wedi cael gwybod am unrhyw bryderon ynglŷn â hyn. Mae angen diweddaru'r strategaeth a'r broses brisio fel rhan o'r trefniadau bob tair blynedd, a bydd y Pwyllgor a'r Bwrdd Pensiynau yn cael gwybod am y wybodaeth ddiweddaraf yn ystod yr Hydref.

Gofynnodd Aelod a yw'r cynllun pensiwn o hyd mewn sefyllfa bositif o ran arian, hynny yw bod mwy yn cael ei dalu i mewn drwy gyfraniadau nag a dalwyd allan.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y cynllun yn parhau i fod mewn sefyllfa bositif o ran arian, a dywedodd y gall y cynllun barhau i weithredu mewn sefyllfa negyddol, ond yn yr amgylchiad hwn efallai y bydd angen newid y strategaeth fuddsoddi gyffredinol yn briodol.

PENDERFYNWYD – bod y diweddariad ariannol yn cael ei nodi.

9 : DATGANIAD CYFRIFON DRAFFT 2018-19

Cyflwynydd y Pennaeth Cyllid, Rheolwr Gweithredol, Cyfalaf, Corfforaethol a'r Trysorlys a Chyfrifydd Grŵp y Datganiad Cyfrifon drafft 2018-19. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y cyfrifon wedi'u llofnodi gan y swyddog cyfrifol cyn y terfyn amser statudol a'u bod yn destun archwiliad allanol a chyhoeddus ar hyn o bryd ynghyd â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Gofynnwyd i'r Aelodau gyflwyno cwestiynau a sylwadau hyd at y 15 Gorffennaf 2019.

Paratowyd y cyfrifon yn unol â Chod Ymarfer CIPFA.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad o natur y taliadau ychwanegol a wnaed i uwch swyddog, fel y nodir yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol. Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod y taliad yn gytundebol, a chytunodd i gadarnhau'r dadansoddiad o'r taliad i Aelodau'r Pwyllgor.

- Gofynnodd Aelod a yw taliadau a wnaed o ran cytundebau 'peidio â datgelu' yn cael eu hadlewyrchu yn y cyfrifon a faint a dalwyd i staff o ganlyniad i weithredoedd AD a fethodd. Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod manylion taliadau ymadael, sy'n cynnwys taliadau cytundeb 'peidio â datgelu', wedi'u nodi yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol, ond nid yw dadansoddiad o'r taliadau hynny wedi'i gynnwys. Atgoffodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau'r Pwyllgor ei fod wedi ysgrifennu'n ddiweddar at bob aelod i roi gwybodaeth am y mater hwn.

- Holodd un Aelod am ddiben y Gronfa Gyllideb Strategol gan fod Mecanwaith Cydnerthedd Ariannol mewn lle. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau fod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn rhagweld gostyngiad pellach mewn cyllidebau a bod angen cynnal cyllideb wrth gefn er mwyn diogelu rhag, er enghraifft, newidiadau i'r grant setliad a/neu gyflawni targedau arbed. Caiff lefel y cronfeydd wrth gefn ei hadolygu'n barhaus a chaiff ei hasesu o ran risg fel rhan o'r broses o gynllunio'r gyllideb.

- Gofynnodd y Pwyllgor sut yr oedd y taliad £2.452 miliwn i Gyllid a Thollau ei Mawrhydi wedi'i gyfrifo. Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod y ffigur yn cynrychioli ad-daliad TAW a oedd yn ddyledus gan Gyllid a Thollau ei Mawrhydi, a oedd yn cael ei drin fel taliad ar gyfrif. Er nad oes rhwymedigaeth ar y Cyngor ar hyn o bryd, pe bai'r sefyllfa'n newid, byddai'n ofynnol i'r Cyngor dalu llog ar gyfrif. Diben y taliad hwn ar gyfrif yw gwrthbwyso cost posibl llog, ac nid yw'n cynrychioli cyfaddefiad o atebolrwydd.

- Gofynnodd Aelod am wybodaeth am werth atebolrwydd posibl mewn perthynas â threth tirlenwi i CThEM. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod y datganiad drafft o gyfrifon yn nodi 'nad yw'n bosibl mesur na darparu amcangyfrif dibynadwy o unrhyw rwymedigaeth ar hyn o bryd'. Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod y cyn Gyfarwyddwyr Corfforaethol Adnoddau wedi darparu gwybodaeth gyfrinachol i'r Pwyllgor ar y mater hwn y llynedd. Hysbyswyd yr Aelod nad yw'r sefyllfa wedi newid. Cytunodd y Pennaeth Cyllid i ddosbarthu'r papur briffio cyfrinachol a ddarparwyd yn flaenorol i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a ymunodd ar ôl y cylchrediad gwreiddiol.

- Gofynnodd yr Aelodau am y wybodaeth ddiweddaraf am lefel y gwariant ar ffioedd ymgynghori mewn perthynas â'r asesiad parhaus o dreth dirlenwi CThEM. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid fod ymgynghorwyr yn dal i gael eu defnyddio ac y byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y costau hyd at ac yn cynnwys 25 Mehefin 2019.

PENDERFYNWYD:

(1) I nodi'r adroddiad;

(2) Y Pennaeth Cyllid i gadarnhau dadansoddiad o'r taliad i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Masnachol Cynorthwyol yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol;

(3) Y Pwyllgor Archwilio i dderbyn gwerth presennol gwariant ar ymgynghoriaeth treth tirlenwi mewn perthynas â materion CThEM ar 25 Mehefin 2019;

(4) Bydd y papur briffio cyfrinachol a rannwyd o' r blaen ar y rhwymedigaeth treth dirlenwi bosibl ar gael i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a ymunodd ar ôl i'r brîff gael ei ddarparu.

10 : DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL (DLLB) A DATGANIAD SICRWYDD YR UWCH REOLWYR (DSUR) 2018-19

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid adroddiad ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a Datganiad Sicrwydd yr Uwch Reolwyr 2018-19. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried a yw'r datganiadau yn adlewyrchu'r amgylchedd risg yn gywir a chefnogi'r sicrwydd o fframwaith llywodraethu, risg a rheolaeth fewnol y Cyngor.

Dywedodd Aelod y byddai'n gofyn am fân newid o fewn yr eitem nesaf i ddatganiad y Pwyllgor Archwilio. Gan fod yr un datganiad wedi'i gynnwys o fewn y DLlB ac Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio, cytunwyd y byddai unrhyw addasiadau a ddirprwyir i'r Rheolwr Archwilio i'w gwneud yn cael eu hadlewyrchu yn y ddwy ddogfen.

Gofynnodd Aelod a fyddai cyhoeddiad y Llywodraeth i ymrwymo i symud tuag at niwtraliaeth garbon yn cael ei gynnwys o fewn y fframwaith llywodraethu. Gan fod hwn yn gyhoeddiad diweddar, dywedodd y Pennaeth Cyllid y byddai angen ei ystyried, ond gan fod niwtraliaeth garbon yn rhan o agenda Cenedlaethau'r Dyfodol, gellid ystyried hyn o fewn y maes sicrwydd hwn.

Cyfeiriwyd at y paragraff sydd wedi'i gynnwys yn y Fforwm Ymgynghorol ar Iechyd a Diogelwch y dylid ystyried materion ar ei gyfer drwy'r cam gweithredu cynharach.

PENDERFYNWYD - nodi cynnwys yr adroddiad.

11 : ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO 2018-19

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio Adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor Archwilio 2018/19 i'r Pwyllgor i'w ystyried. Atgoffwyd yr Aelodau bod yr adroddiad wedi'i baratoi yn dilyn ystyriaeth y Pwyllgor Archwilio o'i sefyllfa ddangosol yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2019. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys canlyniadau hunanasesu a chynllun gweithredu'r Pwyllgor o'i weithdy ym mis Ionawr, fel y'i cymeradwywyd yn ei gyfarfod ar 2 Ebrill 2019. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried a chymeradwyo'r adroddiad fel cyfrif o'i waith, ei berfformiad a'i farn.

Cymeradwyodd yr Aelodau gynnwys yr adroddiad, gan ddirprwyo'r awdurdod i'r Rheolwr Archwilio wneud mân addasiadau, yn gyntaf ym marn y Pwyllgor Archwilio, i ddiwygio'r geiriad i adlewyrchu'r ffaith bod y Pwyllgor Archwilio wedi canolbwyntio ar y fframwaith ar gyfer penderfyniadau, yn hytrach nag ar benderfyniadau gwirioneddol. Yn ogystal, i ddiwygio'r cyfeiriad at 'ddeifio dwfn' y Pwyllgor Archwilio i adlewyrchu'r ffaith bod natur yr adolygiadau hyn yn 'fwy o ffocws', yn hytrach na deifio dwfn.

PENDERFYNWYD:

(1) I gymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2018/19 a dirprwyo'r Rheolwr Archwilio i wneud unrhyw fân ddiwygiadau, yn ôl y gofyn.

(2) Y Rheolwr Archwilio i ddiwygio Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a'r geiriad DLlB cyfatebol i adlewyrchu'r canlynol:

- Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi canolbwyntio ar y fframwaith ar gyfer penderfyniadau ariannol, yn hytrach na chanolbwyntio ar benderfyniadau gwirioneddol
- caiff y cyfeiriad at 'ddeifio dwfn' y Pwyllgor Archwilio eu haddasu i adlewyrchu'r ffaith bod natur yr adolygiadau â mwy o ffocws, yn hytrach na deifio dwfn.

12 : RHEOLI RISG CORFFORAETHOL (DIWEDD BLWYDDYN)

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid, RhG Strategaeth y Gyllideb a Chynllunio Ariannol, a Chyfrifydd Grŵp Adroddiad Asesu Risg Corfforaethol ar gyfer Ch4 2018/19. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod fformat yr adroddiad wedi'i ddiwygio a bod swyddogion wedi tynnu sylw at y prif newidiadau. Roedd y gwaith o lanhau'r naratif sydd yn yr adroddiad hefyd yn mynd rhagddo. Pe bai angen rhagor o wybodaeth am risg benodol, dywedwyd wrth yr Aelodau y gellid trefnu i gael gwybodaeth neu eitem Pwyllgor.

Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau gan y Pwyllgor.  Crynhoir y trafodaethau hynny fel a ganlyn:

- Wrth gyfeirio at y risg o Gynllunio'r Gweithlu, gofynnodd Aelod pryd y byddai'r risg yn cael ei dileu o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (CRC) ac a oedd proses wedi'i sefydlu ar gyfer gwneud hynny.  Dywedodd y Pennaeth Cyllid y gall swyddogion arweiniol y CRC gynnig cael gwared ar risg, ond mae'r uwch dîm rheoli yn gwneud y penderfyniad.  Yn achos cynllunio'r gweithlu, mae'r risg ynghlwm wrth y CATC ac mae angen ei adolygu'n barhaus.  Awgrymodd aelod y gellid cyflwyno log risg i gofnodi pryd y tynnir risgiau oddi ar y gofrestr a'r rheswm. Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod cofnod yn cael ei gadw o gamau o'r fath, a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n benodol ar gyfer risgiau cyfarwyddiaeth, sy'n profi mwy o greu a dileu risgiau. Awgrymodd yr Aelod y dylid ffurfioli'r dull o weithredu o fewn fersiwn o'r Strategaeth Rheoli Risg yn y dyfodol.

- Gofynnodd yr Aelodau am y wybodaeth ddiweddaraf am y paratoadau yr oedd yr awdurdod yn eu gwneud o ran lliniaru'r posibilrwydd o 'Brexit heb gytundeb'. Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod trefniadau wedi'u gwneud ar lefel genedlaethol ar ran yr holl gyrff cyhoeddus yng Nghaerdydd a'r rhanbarth.  Er enghraifft, mae Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfathrebu'n barhaus â chydweithwyr yn y GIG, ac efallai y bydd yn bosibl cynnwys rhagor o wybodaeth am hynny.  Atgoffodd y Pennaeth Cyllid y Pwyllgor Archwilio eu bod yn adolygu cofrestr risg chwarter 4 2018/19, ac y bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu yn y bwletin chwarter 1 2019/20.  Cafwyd sylwadau ar yr angen i wella cyflawnrwydd Risg Brexit, a chytunodd y Pennaeth Cyllid i'w drafod gyda'r uwch dîm rheoli, ac i ystyried diweddariadau Brexit pellach.

- Gofynnodd Aelod am ragor o wybodaeth am rôl a sicrwydd y Fforwm Cydnerthedd Lleol, y cytunwyd y byddai papur briffio'n cael ei ddarparu ar gyfer y Pwyllgor.

- Awgrymodd un aelod y dylid herio Pencampwyr Risg hefyd ar gamau anghyflawn neu'r rhai nad ydynt wedi'u gwreiddio, a nodwyd enghreifftiau o hyn yn y ddogfen. Roedd yr Aelod o'r farn bod y CRC yn cynnwys rhai datganiadau, nad ydynt yn rheolaethau. Cynghorodd y RhG Strategaeth y Gyllideb a Chynllunio Ariannol ei fod yn ymwybodol o hyn ac y bydd achosion o'r fath yn cael eu hystyried fel rhan o'r glanhau.

PENDERFYNWYD:

(1) I nodi'r adroddiad;

(2) Y Pennaeth Cyllid i adrodd ar sylwadau'r Pwyllgor Archwilio i'r Uwch Dîm Rheoli ar wella'r wybodaeth o fewn Risg Gorfforaethol Brexit, ac i drefnu bod y Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am reoli risg Brexit fel y bo'n briodol.

(3) Y Pwyllgor Archwilio i gael gwybodaeth am rôl a sicrwydd a ddarperir gan Fforwm Cydnerthedd Lleol De Cymru.

13 : DIWEDDARIAD AR GYNNYDD/GWAITH SAC

Darparodd Phil Pugh, Rheolwr Archwilio Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ddiweddariad ar gynnydd i'r Pwyllgor. Tynnwyd sylw at adroddiad a gyhoeddwyd ar y Tirlun Gwrth-dwyll, a allai fod o ddiddordeb i'r Pwyllgor, ac sy'n berthnasol i'r eitem ddiweddarach ar Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth y Cyngor. Tynnodd yr adroddiad sylw at y ffaith bod yr Archwilydd Cyffredinol, ar ôl ymgynghori ymhellach â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, yn bwriadu cynnal adolygiad manylach, pellach o'r trefniadau gwrth-dwyll ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, dros y 18 mis nesaf. Dywedodd y Rheolwr Archwilio fod yr adroddiad wedi'i gylchredeg a bod y wybodaeth a'r modelu sydd yn yr adroddiad wedi bod yn ddefnyddiol wrth ddatblygu Adroddiad Blynyddol 2018-19 y Tîm Ymchwilio.

Gofynnodd Aelod a fyddai unrhyw gyfle i aelodau etholedig gyfrannu at yr adroddiad. Cynghorwyd yr Aelod bod y timau sy'n darparu adroddiadau yn ystyried manteision ymgynghori ym mhob astudiaeth archwilio benodol.

Dywedwyd wrth y Rheolwr Archwilio Ariannol y bydd y rheolwr archwilio'n cysylltu â chi i drefnu cyfarfod ymlaen llaw â Swyddfa Archwilio Cymru cyn cyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol, fel y cynigiwyd yn flaenorol gan Ann-Marie Harkin, y Cyfarwyddwr Ymgysylltu/Archwilio Ariannol.

PENDERFYNWYD - nodi cynnwys yr adroddiad.

14 : ADRODDIAD PERFFORMIAD RHEOLI'R TRYSORLYS

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan y Rheolwr Gweithredol - Cyfalaf, Corfforaethol a'r Trysorlys ar y wybodaeth am berfformiad a'r datganiad sefyllfa ar Reoli'r Trysorlys ar 31 Mai 2019.

Gofynnodd yr Aelodau a ddylai'r Pwyllgor gael datganiad am unrhyw fenthyca posibl yn y dyfodol. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod gofynion benthyca yn cael eu hasesu fel rhan o strategaeth y gyllideb a'u bod yn ddibynnol ar farchnadoedd a chyfraddau llog, ac ati. Roedd y swyddog o'r farn y byddai'n anfanteisiol i asesu lefel y benthyca gan fod angen i'r sefyllfa barhau'n gyfnewidiol.

Gofynnwyd i'r Rheolwr Gweithredol egluro pam nad yw'r adroddiad yn cyfleu nodweddion yn y farchnad er mwyn asesu risg/cyfleoedd yn ystod y flwyddyn. Roedd y Rheolwr Gweithredol yn fodlon ystyried y ffordd orau o egluro'r rhesymeg a'r cyd-destun ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Holodd Aelod am y cronfeydd a ddelir yng Nghymdeithas Adeiladu Coventry yn dilyn gostyngiad yn y statws credyd. Eglurodd y Rheolwr Gweithredol ein bod yn elwa o gael meini prawf a'u cadw dan arolwg yn dangos y broses a fabwysiadwn. Roedd sgoriau'r gymdeithas adeiladu wedi disgyn islaw trothwy isaf y Cyngor. Caiff y cronfeydd a ddelir eu gadael i aeddfedu ac ni fyddai arian pellach yn cael ei roi yn unol â'r meini prawf. Gofynnodd yr Aelodau pa mor briodol oedd hi i'r awdurdod fuddsoddi mewn awdurdod lleol arall. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad yw'n anghyffredin i awdurdodau lleol fuddsoddi mewn awdurdodau lleol eraill ledled y DU. Mae hyn yn unol â'r rhestr a strategaeth wrthbleidiol y cytunwyd arni.

Nododd aelod fod y buddsoddiadau wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol a gofynnodd a oedd unrhyw safonau moesegol yn cael eu defnyddio. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod yr awdurdod yn buddsoddi mewn cynnyrch sterling a bod y cyfeiriad daearyddol yn cyfeirio at ble mae'r cyfrifon hynny'n cael eu cadw. Gwneir penderfyniadau buddsoddi ar sail cyngor a gafwyd gan gynghorwyr annibynnol ac a ategir gan Strategaeth Fuddsoddi Rheoli'r Trysorlys. Atgoffodd y Rheolwr Gweithredol y Pwyllgor eu bod wedi ystyried Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ym mis Ionawr 2019, nad oedd yn cynnwys unrhyw elfen o fuddsoddiad moesegol.

PENDERFYNWYD:

(1) Nodi'r adroddiad;

(2) Y Rheolwr Gweithredol, Cyfalaf, Corfforaethol a’r Trysorlys:

- I baratoi nodyn ar gyfer cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio yn y dyfodol ar natur buddsoddiadau a risgiau rheoli'r Trysorlys, gan gynnwys y dull o ymdrin â buddsoddiadau moesegol, ac;
- I ystyried ffyrdd o ddarparu gwybodaeth a chyd-destun ehangach mewn perthynas â gweithgareddau benthyca yn adroddiadau rheoli perfformiad y Trysorlys yn y dyfodol i'r Pwyllgor Archwilio.

15 : STRATEGAETH ARCHWILIO FEWNOL AC ADRODDIAD CYNNYDD

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio'r Strategaeth Archwilio Fewnol a'r Adroddiad Cynnydd. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y Strategaeth yn cysylltu â'r Siarter a'r Cynllun Archwilio a'i bod yn ganolbwynt ar gyfer bwriadau strategol wrth gyflawni a datblygu ymrwymiadau archwilio. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod 20 o adroddiadau wedi'u cyhoeddi a bod 11 o adroddiadau wedi'u cwblhau, a thynnwyd sylw at y canfyddiadau beirniadol, y sicrwydd gwerth am arian, y crynodeb gweithredol ar gyfer yr adroddiad anfoddhaol a gyhoeddwyd, a'r cynnydd yn yr argymhelliad.

Gofynnodd Aelod a oedd cyfle o fewn y strategaeth i drafod cyfleoedd i gyfathrebu canlyniadau'r archwiliad mewnol a'i waith yn ehangach. Cytunodd y rheolwr archwilio i drafod cyfathrebu ehangach â chydweithwyr yn y Tîm Cyfathrebu.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r Archwilwyr Mewnol yn rhannu gwybodaeth ag asiantaethau allanol fel Estyn mewn perthynas ag arolygiadau ysgolion. Dywedodd y Rheolwr Archwilio fod Estyn yn cyhoeddi adroddiadau arolygu sy'n darparu cyd-destun defnyddiol ar gyfer archwilio mewnol. Byddai'r Rheolwr Archwilio yn agored i rannu gwybodaeth berthnasol gydag Estyn pe bai cais yn dod i law.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd Gwasanaeth Cerddoriaeth Caerdydd a'r Fro yn ymgysylltu'n gadarnhaol â chydweithwyr o fewn Archwilio Mewnol, ac a yw'r rheolwyr yn ymwybodol o'r cynnydd. Dywedodd y Rheolwr Archwilio fod yr archwiliad dilynol wedi ystyried na fu cynnydd digonol, y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohono, ac y bydd cynnydd yn parhau i gael ei fonitro drwy'r broses olrhain argymhellion.

PENDERFYNWYD:

(1) I nodi'r adroddiad;

(2) Y Rheolwr Archwilio i gwrdd â Swyddogion Cyfathrebu Corfforaethol, i ystyried cyfleoedd i gyfleu allbynnau Archwilio Mewnol, a'i waith yn ehangach.

16 : ADRODDIAD CYNNYDD Y TÎM YMCHWILIO A STRATEGAETH DDRAFFT GWRTH-DWYLL A LLYGREDIGAETH

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio adroddiad cynnydd ar gyfer y Tîm Ymchwilio. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod proses recriwtio'n cael ei chychwyn ar gyfer ymchwilydd ychwanegol o ystyried y gofynion gwaith parhaus ar gyfer y tîm, a dyheadau'r Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod y strategaeth gwrth-dwyll a llygredigaeth, y canolbwyntir arni o ran ymwybyddiaeth a chyfathrebu sefydliadol, yn golygu y caiff hyfforddiant gorfodol ei gyflwyno a bydd y Cyngor yn cymryd rhan yn y Wythnos Ymwybyddiaeth Twyll Rhyngwladol ym mis Tachwedd. Roedd Aelod yn cymeradwyo'r strategaeth ac yn ystyried ei bod yn canolbwyntio. Awgrymwyd, fel pwynt cyflwyniadol, fod twyll a llygredigaeth yr un mor bryderus, ac felly y dylid cyfleu'r strategaeth fel y cyfryw.

PENDERFYNWYD - nodi cynnwys yr adroddiad.

17 : ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2018/19

Cyflwynodd y rheolwr archwilio Adroddiad Blynyddol yr Archwiliad Mewnol gan dynnu sylw at y farn flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y systemau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, a'r crynodeb o'r gwaith sy'n ategu'r farn. Nododd y Rheolwr Archwilio hefyd ei fod yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) a Nodyn Ymgeisio Llywodraeth Leol (LGAN), a chanlyniadau'r rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella (QAIP) sy'n cefnogi'r datganiad.

PENDERFYNWYD - nodi cynnwys yr adroddiad.

18 : ADRODDIAD BLYNYDDOL Y TÎM YMCHWILIO 2018/19

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Tîm ymchwilio 2018/19. Roedd yr adroddiad yn nodi gweithgarwch a pherfformiad y tîm ar gyfer y flwyddyn. Roedd gweithgarwch wedi'i rannu'n bennaf rhwng ymchwiliadau, darparu hyfforddiant ac adolygu twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaethau allweddol, polisïau a chanllawiau.

Hysbyswyd yr Aelodau bod y Tîm wedi cyfrannu'n sylweddol at gefnogi ymchwiliad yr heddlu i dwyll honedig o fewn Rheoli Gwastraff. Mae'r Tîm Ymchwilio hefyd wedi arwain ar ddatblygu strategaeth atal twyll a llygredigaethau'r Cyngor.

Trafododd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol. Roedd Aelod o'r farn y gallai fod yn ddefnyddiol cofnodi achosion o lygredigaethau ar wahân, a chynghorodd y Rheolwr

Archwilio y byddai hyn yn heriol, ond y bydd ystyriaeth yn parhau i gael ei rhoi i adrodd ar gydrannau wrth symud ymlaen.

PENDERFYNWYD - nodi cynnwys yr adroddiad.

19 : GOHEBIAETH GRAFFU

Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth graffu.

20 : CAMAU GWEITHREDU HEB EU CWBLHAU

Nodwyd y camau a oedd heb eu cymryd.

21 : DIWEDDARIAD Y RHAGLEN WAITH

Nodwyd Rhaglen waith y Pwyllgor.

22 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

23 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 10 Medi 2019.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.30 pm